5.3.3 The Children's Services Division within Social Services has secured £820k of Integrated Care Fund (ICF) grant to enable the purchase and conversion of a new residential facility for children. During March 2019 this funding was used to purchase the Ty Isaf property in Llanbradach at a cost of around £652k leaving £168k available to convert the property. A further £50k was earmarked within the Social Services capital budget to convert the garage at the property to move on accommodation for care leavers and a programme of work was agreed within the budget available. However, once work had commenced a serious fault was uncovered which required the rebuilding of the gable end wall and a further £55k was earmarked within the Social Services capital budget to fund this. A number of other faults and safety issues have been identified during the refurbishment of the property adding a further £140k to the cost of the project which cannot be absorbed within the Social Services capital budget. Members are asked to endorse a recommendation to Cabinet that the additional funding requirement of £140k is

met from Corporate Capital Earmarked Reserves.

- 5.3.4 Similarly, Integrated Care Fund (ICF) grant of £705k was secured for the development of a regional hub to accommodate the Gwent MyST (which is an intensive foster care support service) in Bargoed High Street. Initial tenders for this project were received between £1million and £1.3million so a re-scoping of the scheme was undertaken resulting in an estimated cost of around £805k. Therefore, a further £100k of funding was earmarked within the Social Services capital budget for 2020/21. However, a more recent estimate has identified a potential cost of £905k so a further £100k of funding is required to ensure the completion of the project and to protect the grant funding. Members are asked to endorse a recommendation to Cabinet that the additional funding requirement of £100k is met from Corporate Capital Earmarked Reserves.
- 5.3.5 The proposed use of reserves totalling £184k for care home visiting and lateral flow testing is for eight fixed-term 28 hours per week posts for an initial period of nine months. £10k is also included in this total for equipment. Feedback from other Local Authorities is that this is very time intensive in respect of Lateral Flow Devices as everything has to be logged on a system to link to Track, Trace & Protect (TTP). It is a significant logistical exercise as kits have to be ordered, stored and distributed to all registered domiciliary care agencies in the borough. This will then be expanded to include supported living and frontline Social Workers and Occupational Therapists. Care Homes will order their own kits, but the administrative burden will be significant. There is also a weekly reporting requirement for WG. In respect of Care Home visits there will need to be a booking system to coordinate visits across the council's six Care Homes 7 days a week so staff time is required to identify the designated visitor and explain and plan visits, which will vary depending on alert levels e.g. window, pod indoor etc. Members are asked to endorse a recommendation to Cabinet that the £184k funding requirement is met from Social Services Retained Underspend Reserves.

5.4 Conclusion

- 5.4.1 Despite the ongoing challenges faced by the Council the financial position is being well managed during the current financial year with a projected revenue budget underspend of £3.980m based on information available at month 9.
- 5.4.2 The Covid-19 WG funding is of course very welcome but there is currently only a confirmed commitment for this funding until the 31st March 2021. The UK Government has allocated £766m to WG in respect of the ongoing financial impact of Covid-19 for the 2021/22 financial year but this is far below the levels of funding that have been allocated in 2020/21. This presents a significant financial risk and the position will be closely monitored as we move into the new financial year.

6. ASSUMPTIONS

- 6.1 A wide range of assumptions are made in the preparation of budget monitoring reports based on information available for the relevant reporting period.

7. LINKS TO RELEVANT COUNCIL POLICIES

- 7.1 Effective financial planning and maintaining expenditure within approved budgets supports the following Well-being Goals within the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015: -
- A prosperous Wales.
 - A resilient Wales.
 - A healthier Wales.
 - A more equal Wales.
 - A Wales of cohesive communities.
 - A Wales of vibrant culture and thriving Welsh Language.

- A globally responsible Wales.

8. WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

8.1 Effective financial planning and the management of expenditure within approved budgets are key elements in ensuring that the Well-being Goals within the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015 are met.

9. EQUALITIES IMPLICATIONS

9.1 There are no direct equalities implications to this report in terms of the financial information presented.

10. FINANCIAL IMPLICATIONS

10.1 As detailed throughout the report.

11. PERSONNEL IMPLICATIONS

11.1 There are no direct personnel implications arising from this report.

12. CONSULTATIONS

12.1 There are no consultation responses that have not been reflected in this report.

13. STATUTORY POWER

13.1 Local Government Act 1972.

Author: Stephen Harris, Head of Financial Services & S151 Officer
Tel: 01443 863022 E-mail: harrisr@caerphilly.gov.uk

Consultees: Corporate Management Team
Cllr Eluned Stenner, Cabinet Member for Finance, Performance and Customer Service
(Email: stenne@caerphilly.gov.uk)
Rob Tranter, Head of Legal Services and Monitoring Officer
(Email: trantrj@caerphilly.gov.uk)
Andrew Southcombe, Finance Manager, Corporate Finance
(Email: southak@caerphilly.gov.uk)
Dave Roberts, Principal Group Accountant, Corporate Finance
(Email: roberda@caerphilly.gov.uk)
Jane Southcombe, Finance Manager, Education & Lifelong Learning
(Email: southj@caerphilly.gov.uk)
Mike Jones, Financial Services Manager, Social Services
(Email: jonesmj@caerphilly.gov.uk)
Lesley Allen, Principal Group Accountant, Housing
(Email: allenl@caerphilly.gov.uk)

Appendices:

Appendix 1 – Whole-Authority Revenue Budget Monitoring Report 2020/21 (Period 9)
(Summary by Directorate/Service Division)

Background Papers:

- Budget Proposals for 2020/21 and Medium-Term Financial Outlook (Council 20/02/20).
- Financial Outlook (Council 10/09/20).

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol

Whole Authority Revenue Budget Monitoring Report 2020-21 (Period 9)

Summary by Directorate/Service Division

Directorate/Service Division	Original Budget 2020-21	Revised Budget 2020-21	Projected Outturn 2020-21	Projected (Overspend)/ Underspend
	£000's	£000's	£000's	£000's
Education & Lifelong Learning				
- Schools Related	118,513	118,529	118,036	493
- Education	16,591	16,654	16,138	516
- Lifelong Learning	3,799	3,818	3,539	279
Sub-Total: -	138,903	139,001	137,713	1,288
Social Services & Housing				
- Children's Services	25,143	25,216	26,041	(825)
- Adult Services	65,962	66,194	64,146	2,048
- Service Strategy and Business Support	2,131	2,138	1,085	1,053
- Housing Services	1,628	1,646	1,529	117
Sub-Total: -	94,864	95,194	92,801	2,393
Communities				
- Regeneration and Planning	2,214	2,246	2,156	90
- Infrastructure	19,917	19,970	20,397	(427)
- Community and Leisure Services	21,673	21,823	22,500	(677)
- Public Protection	7,450	7,512	7,375	137
- Directorate General	175	176	175	1
Sub-Total: -	51,429	51,727	52,602	(875)
Corporate Services				
- Interim Chief Executive/Director	359	362	342	20
- Corporate Finance	1,864	1,895	1,739	156
- Legal and Governance	3,199	3,213	3,117	96
- Business Improvement Services	1,328	1,335	1,181	154
- Customer and Digital Services	5,845	5,803	5,487	316
- Corporate Property	4,903	4,921	4,715	206
- People Services	2,837	2,849	2,715	134
Sub-Total: -	20,335	20,378	19,296	1,082
Miscellaneous Finance	50,599	49,829	49,738	91
Grand Total: -	356,130	356,130	352,150	3,980

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



PWNC: **FFRAMWAITH LLES A LLUNIO LLEOEDD DRAFFT
CAERFFILI**

ADRODDIAD GAN: PRIF WEITHREDWR

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am rai o'r buddsoddiadau cyfalaf sylweddol a wnaed dros y blynnyddoedd diwethaf ar draws amcanion lles y Cyngor a chynnig cyfres o brosiectau a fydd yn sail i Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd ar draws y fwrdeistref sirol.
- 1.2 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi mechanwaith ymgysylltu â'r gymuned arfaethedig sy'n galluogi rhanddeiliaid allweddol i gael y cyfle i lunio a mireinio'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd dros y blynnyddoedd i ddod.

2. CRYNODEB

- 2.1 Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd ers gwanwyn 2020. Mae'r Fframwaith wedi'i adeiladu ar yr ystod eang o fuddsoddiadau cyfalaf a wnaed ar draws y fwrdeistref sirol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf ac fe'i datblygwyd i ystyried:
 - Rhaglenni buddsoddi aml-flynyddol hirsefydlog presennol
 - Cyfleoedd ariannu a buddsoddi sy'n dod i'r amlwg ac sy'n bodoli eisoes
 - Blaenoriaethau ac amcanion y Cynllun Corfforaethol
 - Angen a nodwyd yn flaenorol
 - Cyfleoedd prosiect cydweithredol
 - Cyfleoedd Masnachol sy'n dod i'r amlwg
 - Fframwaith Adfer Strategol y Cyngor
- 2.2 Mae'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd drafft a nodir yn 5.8 yn cynnwys rhestr o fuddsoddiadau posibl ar draws Caerffili sy'n fwy na £231m, sy'n cyd-fynd yn benodol ag Amcanion Lles mabwysiedig y Cyngor.
- 2.3 Mae'r fframwaith buddsoddi hwn yn rhoi cyfle adeiladu, atgyweirio ac adnewyddu seilwaith ac asedau allweddol ar hyd a lled bwrdeistref sirol Caerffili, yn ogystal â hyrwyddo ymhellach y nodau a'r cyfeiriad polisi a osodwyd yn flaenorol o fewn strategaethau megis cynllun Corfforaethol y Cyngor, y Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol, Strategaeth Adfywio'r Cyngor "Sylfaen ar gyfer Llwyddiant 2018-

2023" yn ogystal â'r cynigion cyffrous a nodir yn Rhaglen Band B Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

- 2.4 Mae'r cynnig fframwaith hwn o'r pwysigrwydd mwyaf ar hyn o bryd, gan ei fod yn cynnig elfen bwysig o gynllun adfer Covid y Cyngor, sy'n ceisio cefnogi ein cymunedau wrth iddynt ddechrau dod allan o'r pandemig Covid. Mae buddsoddiadau hirdymor mewn seilwaith fel yr un a gynigir o fewn y Fframwaith hwn yn meddu ar y potensial i ailgydbwyso'r economi leol, gwella cynhyrchiant a chreu swyddi a chyfleoedd ar draws Caerffili, sy'n bwysig iawn wrth i ni gefnogi ein cymunedau i ailadeiladu dyfodol cynaliadwy a gwydn ar ôl Covid. Mae'r cyfle'n bodoli i gydweithio i greu Caerffili well a mwy llewyrchus i bawb, gan ymgorffori ymhellach ein model darparu cymunedol ac arweinyddiaeth ddinesig gyfunol "Tîm Caerffili".
- 2.5 Bydd angen datblygu'r prosiectau a'r syniadau o fewn y Fframwaith yn gynigion a gaiff eu llunio drwy ymgysylltu â'r gymuned a chraffu cyn gwneud unrhyw benderfyniad i weithredu.
- 2.6 Mewn llawer o achosion, bydd y buddsoddiad i gefnogi'r prosiectau hyn yn gyfuniad o gyfalaf mewnol a grant allanol, gyda'r olaf hefyd yn destun prosesau cymeradwyo allanol perthnasol.
- 2.7 Mae'r rhaglen ymgysylltu barhaus a ddisgrifir ym mhwynt 5.9 wedi'i chynllunio'n benodol i sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei fireinio'n barhaus dros y blynnyddoedd nesaf, gyda chyfleoedd i ychwanegu cynigion Lles a Llunio Lleoedd yn y dyfodol, a'u hystyried wrth iddynt ddod i'r amlwg.

3. ARGYMHELLION

- 3.1 Gofynnwyd i'r Cabinet:
- Ystyried unrhyw safbwytiau ac argymhellion a wnaed yng nghyfarfod yr holl Bwyllgorau Craffu ar yr 22 Chwefror.
 - Nodi'r buddsoddiadau Lles a Llunio Lleoedd, sy'n dod i gyfanswm o dros £153m sydd wedi'u gwneud rhwng 2017 a 2020, fel y nodir ym mhwynt 5.6
 - Nodi'r buddsoddiadau Lles a Llunio Lleoedd sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd, sy'n dod i gyfanswm o dros £129m, i'w cyflawni fel y nodir ym mhwynt 5.7
 - Cytuno y bydd y prosiectau a nodir ym mhwynt 5.8, sy'n dod i gyfanswm o fwy na £231m yn ffurio'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd cychwynnol ar gyfer y Cyngor o 2021 ymlaen, gan ffurio map llwybr cynaliadwy a gwydn i'n cymunedau ddod allan yn gryfach o'r pandemig Covid
 - Cytuno y gellir datblygu'r prosiectau a nodir ym mhwynt 5.8 yn achosion busnes i'w hystyried
 - Cydnabod bod yn rhaid i bob cynnig fynd drwy'r prosesau ymgynghori, craffu, cymeradwyo cyllid a gwneud penderfyniadau perthnasol cyn eu gweithredu
 - Cytuno ar y mecanweithiau arfaethedig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a nodir ym mhwynt 5.9

- h) Nodi'r cymeradwyaethau cyllid sy'n dod i gyfanswm o £28.591m sydd eisoes wedi'u cadarnhau ar gyfer y Fframwaith Llunio Lleoedd fel y nodir yn Adran 10 o'r adroddiad.
- i) Cymeradwyo argymhelliaid y dylid dyrannu'r cyllid o £1.640m o fewn cyllideb Cyfraniad Refeniw Cyllid Amrywiol i gyllideb Gwariant Cyfalaf 2020/21 hefyd i'r Fframwaith Llunio Lleoedd, a fyddai'n cynyddu cyfanswm y cyllid sydd ar gael i £30.231m.
- j) Cytuno y bydd cyfarfod o'r holl Gydbwyllgorau Craffu yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn i ystyried cynnydd y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd.
- k) Cytuno i dderbyn adroddiad ar wahân ar y Gronfa Grymuso Cymunedau a fydd yn manylu ar y mecanweithiau lle y gall Aelodau Etholedig, ochr yn ochr â'u cymunedau, ddatblygu syniadau prosiect i'w hystyried o fewn y Fframwaith.

4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHILLION

- 4.1 Cytuno ar fuddsoddiad Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd posibl ar draws y fwrdeistref sirol ar gyfer y cyfnod 2021 ymlaen, ar yr amod bod yr achosion busnes angenrheidiol yn cael eu datblygu, ymgynghori arnynt a chytuno arnynt gan y corff gwneud penderfyniadau perthnasol.

5. YR ADRODDIAD

- 5.1 Mae Llunio Lleoedd yn ymwneud â chreu Cymunedau sy'n lleoedd gwych i fyw ynddynt nawr, yn ogystal â bod â'r potensial i ffynnu yn y dyfodol. Wrth i ni ddod allan o bandemig Covid, mae'n hanfodol ein bod yn darparu llwybr ymlaen i'n cymunedau sy'n cynnig iddynt ddyfodol cynaliadwy a gwydn. Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol ein bod yn deall mai anghenion a heriau ein cymunedau cyfansoddol, effaith y buddsoddiadau a'r ymyriadau a wnaed hyd yma a'r rhai sy'n ofynnol yn y blynnyddoedd i ddod, ynghyd â dealltwriaeth fanwl o'r hyn sy'n gwneud cymuned yn unigryw yw sylfaen unrhyw ddull Llunio Lleoedd.
- 5.2 Dylai buddsoddiad mewn prosiectau Lles a Llunio Lleoedd cael eu cynllunio i gryfhau gwead ein cymunedau'n uniongyrchol drwy wella agweddau allweddol ar fywyd ledled Caerffili. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ystod o fuddsoddiadau o'r fath, yn y gorffennol diweddar a dros y blynnyddoedd i ddod, y bwriedir iddynt wella ar y cyd bywydau'r rhai sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol.
- 5.3 Bydd y prosiectau Lles a Llunio Lleoedd sy'n sail i'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfuniad o ddulliau ariannu. Bydd rhai prosiectau'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan gyfalaf y Cyngor, bydd rhai yn gyfuniad o gyfalaf y Cyngor a chyllid allanol, ochr yn ochr â rhai yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl yn allanol. Ym mhob achos, bydd y Cyngor yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu'r syniad a chaffael y buddsoddiad.
- 5.4 Mae rhagleni gwerth miliynau o bunnoedd a gynlluniwyd i wella ansawdd adeiladau ein hysgolion, dod â Thai Cyngor i fyny at Safon Ansawdd Tai Cymru, gwella seilwaith priffyrrd y Fwrdeistref Sirol, gwella'r cyfleoedd i fyw bywyd iach a chreu cyfleoedd newydd a gwell i fusnesau ffynnu, oll yn rhan o'r rhaglen hon.

5.5 Amcanion Lles Caerffili

Yn 2018, mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Corfforaethol a oedd yn cynnwys chwe amcan lles. Gosodwyd yr amcanion lles gan ddefnyddio gwybodaeth a data o'r Asesiad Lles a gynhalwyd i lywio Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yr ymarfer hwn yn dangos yn uniongyrchol bryderon ein trigolion a'r ardaloedd yr hoffent eu gweld yn cael eu gwella.

Mae'r amcanion lles yn cwmpasu'r cyfnod 2018-2023 ac maent fel a ganlyn:

- **Amcan Lles 1 –** Gwella cyfleoedd addysg i bawb
- **Amcan Lles 2 –** Galluogi cyflogaeth
- **Amcan Lles 3 –** Mynd i'r afael â'r cyflenwad, cyflwr a chynaliadwyedd o gartrefi ledled y fwrdeistref sirol a rhoi cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu gwella iechyd a lles pobl
- **Amcan Lles 4 –** Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd
- **Amcan Lles 5 –** Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Ffordd Iach o Fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy sydd o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- **Amcan Lles 6 –** Cynorthwyo dinasyddion i barhau i fod yn annibynnol a gwella eu lles

5.6 Buddsoddiad Lles a Llunio Lleoedd 2017-2020

Yn ystod y cyfnod 2017-2020, roedd y Cyngor wedi gallu cynorthwyo buddsoddiad gwerth dros £153m ar draws ei gymunedau a'r chwe amcan lles. Mae rhai o'r cynlluniau mwyaf arwyddocaol, gyda buddsoddiadau sy'n fwy na £100 mil, wedi'u crynhoi yn ôl amcan lles yn y tabl isod.

Delwedd 1 – Detholiad o rai o'r buddsoddiadau cymeradwy mwyaf arwyddocaol 2020-2023



Tabl 1 – Buddsoddiad Hanesyddol Lles a Llunio Lleoedd 2017-2020

WBO1	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	8.075m	Cyfnod Cynradd Idris Davies 3-18
	2.000m	Estyniad 9 Dosbarth a lift yn Ysgol Gyfun Trecelyn
	2.000m	Rhaglen adnewyddu Band A Ysgol Gyfun Coed Duon
	1.800m	Ehangu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Ysgol y Castell
	1.340m	Gwaith adnewyddu llwyr Cam 1 Band A Cae'r Drindod
	0.865m	Cae 3G yn Ysgol Gyfun Coed Duon
WBO2	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	0.300m	Uwchraddio safle llawn Storfa Tir-y-berth
	0.392m	Gadael Tŷ Dyffryn (i alluogi Transcend i gychwyn)
WB03	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	100.9m	Gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)
	6.250m	Cynllun EW1 Parc Lansbury
	4.200m	Buddsoddiad POBL yn Stryd y Felin, Rhisga
	3.900m	Gwaith Amgylcheddol SATC
	2.500m	Cynllun ARBED Parc Lansbury
	2.015m	Caffaeliad Eiddo
	1.920m	Gwaith Gwella Eiddo Anhraddodiadol
	1.100m	Gwaith Ynni Pontlotyn
	1.100m	Arbed Ynni (I Park)
	1.000m	Gwaith Ynni Gilfach
	0.692m	Paratoi Safle Dinesig Pontllan-fraith ar gyfer Tai
	0.300m	Llety i'r Digartref ym Maes y Dderwen
	0.200m	Llety i'r Digartref yn Nhŷ Idris Davies
	0.126m	Addasiadau Eiddo
WB04	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	7.938m	Cylchfan Pwll-y-pant
	0.450m	Darparu seilwaith yn Nhŷ Du
	0.407m	Teithio Llesol – Ystrad Mynach i Nelson
WB05	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	0.810m	Ardal chwarae Antur Cwmcarn/porthdai newydd
	0.485m	Gwella Amgylcheddol Lle'r Gerddinen
	0.182m	Gwaith uwchraddio i Ganolfan Hamdden Trecelyn
WB06	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	0.154m	Uwchraddio Ystafell Iechyd Canolfan Hamdden Caerffili
	0.120m	Estyniad Hafod Deg Rhymni

Mae llawer o'r buddsoddiadau cyfalaf hyn hefyd yn dod â manteision ehangach gyda hwy na dim ond creu'r ased newydd ei hun. Gan gymryd datblygu'r cyfnod cynradd newydd yn Idris Davies 3-18 fel enghraift, nodwyd y manteision canlynol hefyd y tu hwnt i'r buddsoddiad cyfalaf o £8m yn adeilad yr ysgol:

- Roedd 98% o'r gweithlu adeiladu yn dod o Gymru
- Roedd 76% o wariant y prosiect yng Nghymru
- Roedd 82% o'r is-gontractwyr adeiladu yn dod o Gymru
- Roedd 100% yn fusnesau bach a chanolig

- Crëwyd 233 wythnos o gyflogaeth (cyfanswm o 13 o bobl) yn ystod y gwaith adeiladu
- Darparwyd 132 wythnos o hyfforddiant

Gan ystyried y math hwn o fanteision economaidd-gymdeithasol ehangach, y mae llawer ohonynt o fewn rhodd y Cyngor i'w cyflawni, dim ond fel llinell sylfaen ar gyfer datblygu manteision cymunedol neu gymdeithasol ehangach y dylid ystyried lefel y buddsoddiad a amlinellir ym mhwyntiau 5.7 a 5.8 isod.

5.7 Buddsoddiad Lles a Llunio Lleoedd 2020-2023 (sydd â chymeradwyaeth)

Yn ystod y cyfnod 2020-2023, bydd swm sylweddol o fuddsoddiad pellach yn cael ei wneud ar draws Caerffili. Hyd yn hyn, derbyniwyd cymeradwyaethau prosiect gwerth cyfanswm o dros £129m ar draws y chwe amcan lles. Ceir crynodeb o'r prosiectau mwyaf arwyddocaol o'r prosiectau hyn yn y tabl isod.

Delwedd 2 – Detholiad o rai o'r buddsoddiadau cymeradwy mwyaf arwyddocaol 2020-2023



Tabl 2 = Prosiectau Cymeradwy Lles a Llunio Lleoedd 2020-2023

WBO1	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	6.400m	Ehangu'r Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg
	6.000m	Rhaglen EdTech (Hyb)
	5.000m	Gwaith Grant Cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion Llywodraeth Cymru
	5.000m	Grant Gofal Plant (LIC)
	1.400m	Gwaith Grant Cyfalaf Cynnal a Chadw CBSC (bob blwyddyn)
	1.340m	Adnewyddu Band A yn ysgol Cae'r Drindod
	0.755m	Trac Rhedeg Oakdale
	0.751m	Cynyddu Capasiti yn Ysgol Penalltau
	0.500m	Estyniad yn Ysgol Gynradd Ystrad Mynach
	0.442m	Estyniad UCD Glan-y-nant
	0.306m	Caeau 3G newydd yn Ysgol Lewis Pengam, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a Sant Cenydd
WBO2	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	13.00m	Caffael, dymchwel ac aildatblygu Stryd Pentrebane Caerffili gyda Linc Cymru

	10.00m (y mae £0.4m ohono'n ymwneud â Specsavers)	Dymchwel Adeilad Specsavers er mwyn hwyluso datblygiad tymor hwy o Westy yn Lôn y Parc Caerffili
	7.000m	Datblygiad Tai Oakdale gan gynnwys cyfleuster rhandir lleol newydd
	3.900m	Unedau Cychwyn Tŷ Du
	2.900m	15 x busnes newydd yn Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt
	1.360m	Menter Adfywio wedi'i Thargedu mewn Gwella Eiddo
	0.200m	Man Aros Coetsis newydd ger Castell Caerffili
WB03	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	40.00m	Gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)
	10.00m	Datblygiad Gerddi'r Siartwyr
	4.000m	Gwaith Amgylcheddol SATC
	3.000m	Ailfodelu dau gynllun tai gwarchod
	1.800m	Gwaith Ynni Parc Lansbury
	1.000m	Gwelliannau Eiddo Anhraddodiadol (Bedwas)
	1.000m	Ailddatblygiad Ysgol a Maes Bedwellte
	0.500m	Tŷ Bedwellte - Adeilad Newydd (Adran 106)
WB04	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	0.489m	Teithio Llesol yng Nghaerffili
	0.150m	Gwella Pont Droed Trecenydd
WB05	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	0.550m	Gwelliannau i Ganolfan Hamdden Trecelyn
	0.465m	Dymchwel Baddonau Longbridge a gwella'r ystafelloedd newid
WB06	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	6.387m	Gwaith Dymchwel/Adlinio'r Ffordd yn Hafodyrynys
	1.500m	Cwblhau ac Agor mynwent newydd basn Caerffili yn Nantgarw
	1.000m	Gwelliannau i Ffordd Goedwig Cwmcarn
	0.800m	Estyniad Safle Amwynderau Dinesig Penalta a'r Siop Ail-ddefnyddio
	0.705m	Gwasanaethau Maethu Therapiwtig MyST (Fy Nhîm Cymorth)
	0.115m	Adnewyddu Caffi Cwmcarn

5.8 Buddsoddiad Arfaethedig Lles a Llunio Lleoedd 2020 - ymlaen

Yn ystod y cyfnod 2020-2023 a thu hwnt, mae'r Cyngor yn dymuno datblygu a gweithredu Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd sy'n adeiladu ar y buddsoddiad a wnaed hyd yma ac sy'n ceisio helpu cymunedau Caerffili i ddod yn lleoedd gwych i fyw ynddynt nawr, yn ogystal â chael y potensial i ffynnu yn y dyfodol, wrth iddynt ddod allan o'r pandemig Covid.

Mae'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd drafft a grynhoir isod yn cynnwys ystod eang o broiectau a allai, pe baent yn dderbyniol i'r corff gwneud penderfyniadau perthnasol,

gyflawni buddsoddiadau pellach sylweddol ac amrywiaeth o gyfleusterau gwell ar draws cymunedau Caerffili.

Datblygwyd y Fframwaith drafft drwy ymgynghori â Phenaethiaid Gwasanaeth, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet ac mae hefyd wedi'i lunio drwy'r mewnwelediad a gynhyrchwyd gan Holiadur Trafodaeth Caerffili.

Dylid nodi mai dim ond cynigion yw'r prosiectau hyn ar hyn o bryd. Bydd datblygiad a dilyniant pob prosiect yn destun ymgynghori ac ymgysylltu perthnasol; lle bo angen, datblygu a chraffu ar achosion busnes cadarn, a'r buddsoddiad ariannol angenrheidiol sydd ar waith ac ar ôl cael cymeradwyaeth. Efallai y bydd adegau hefyd lle bydd angen caniatâd cynllunio cyn i brosiect ddatblygu.

Bydd y Fframwaith yn ei gyfanwydd yn rhan o raglen ymgysylltu barhaus gyda chymunedau Caerffili a fydd yn rhoi'r potensial i randdeiliaid ychwanegu prosiectau pellach, yn ogystal â mireinio neu ddileu prosiectau sydd eisoes yn bodoli o fewn y Fframwaith.

Pe bai'r prosiectau arfaethedig isod yn cael eu datblygu yn y pen draw, bydd buddsoddiad o fwy na £231m ar gael i'r fwrdeistref sirol a fydd yn cefnogi ystod eang o welliannau ar draws y chwe amcan lles.

Tabl 3 – Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd drafft 2021 - ymlaen

WBO1	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	35.00m	Cwm Rhymni Uchaf Datblygiad posibl o gyfleusterau defnydd cymysg, gan gynnwys cyfuniad o ddefnydd addysg / hamdden / tai a chyflogaeth
	20.00m	Buddsoddi mewn Ysgolion Uwchradd Mae buddsoddiad mewn Ysgolion Uwchradd eto i'w benderfynu ac yn destun adolygiad parhaus.
	12.70m	Ehangu Cae'r Drindod gan gynnwys Canolfan Blant Ehangu Ysgol bresennol Cae'r Drindod i gynnal 80 o leoedd ychwanegol a darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i'n disgynblion mwyaf agored i niwed, a fydd yn gallu diwallu anhenion dysgu, cymdeithasol a meddygol, yn ogystal â chreu cyfleusterau ar gyfer gweithio integredig ar draws Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd, a darparu cyfleoedd ar gyfer gofal plant, mannau awyr agored a defnydd cymunedol.
	9.50m	Datblygiad Cwm Gwyddon ar hen safle Ysgol Uwch Cwmcarn Bydd y prosiect yn darparu gofal plant addas i'r diben, Sylfaen Adnoddau Arbennig ag 16 lle a bydd yn cynyddu darpariaeth a chapasiti addysgol yr ysgol o 220 i ysgol gynradd 420 lle gyda meithrinfa a mwy.
	8.900m	Adeilad Ysgol Newydd ym Mhlas-y-felin

		Creu Ysgol Gynradd Plas-y-felin newydd o'r radd flaenaf ar dir y safle presennol i gynnwys defnydd cymunedol o'r cyfleuster
	5.500m	Adeiladu Ysgolion Newydd (Ysgol Gynradd Gilfach ac Ysgol Gynradd y Parc) Cyfuno Ysgol Gynradd Gilfach Fargod ac Ysgol Gynradd y Parc ar safle ysgol newydd, gan weithio tuag at ysgol sero carbon net.
	5.500m	Canolfan Dysgwyr Agored i Niwed ym Mhontllan-fraith (safle hen Ysgol Ramadeg Pontllan-fraith) Creu canolfan ragoriaeth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed o bob rhan o Gaerffili, a fydd â chyfleoedd dysgu, darpariaeth chwaraeon dan do ac awyr agored o ansawdd uchel yn ogystal â mynediad at gymorth o'r radd flaenaf. Bydd y Ganolfan yn lleihau'r angen i roi cymorth i ddysgwyr ar gontact allanol i ddarparwyr preifat a bydd yn galluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol.
	4.200m	Ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer Bedwas, Trethomas a Machen Creu ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd i ddarparu ar gyfer y dalgylch o bentrefi Bedwas, Trethomas a Machen.
	4.200m	Ysgol Gynradd Newydd Rhymni Uchaf Adeilad newydd yn lle Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf presennol, safle i'w benderfynu.
	4.000m	Ysgol Gynradd Newydd yn Llancaeach / Llanfabon Cyfuno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon er mwyn creu Ysgol Gynradd newydd i gynnwys defnydd cymunedol o'r cyfleuster
	2.000m	Ymestyn Ysgol Gynradd Sant Iago Ehangu addysg gynradd yn amodol ar alw.
	0.500m	Buddsoddi yn safle presennol Idris Davies 3-18 i ddarparu ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd posibl.
	0.400m	Adleoli Ysgol Gynradd Gymraeg Gilfach Fargod i safle presennol Ysgol Gynradd y Parc. Bydd hyn yn gofyn am elfen o adnewyddu.
	0.260m	Cae 3G yn Ysgol Idris Davies Sefydlu cae 3G sy'n cefnogi rygbi a phêl-droed o fewn safle presennol yr ysgol.
	0.200m	Adleoli Ysgol y Lawnt i safle newydd posibl.
	0.065m	Cyfleuster addysg ym Mharc Virginia

		Addasu adeilad Clwb Golff Parc Virginia sydd bellach wedi'i gaffael i ddarparu canolfan ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenciad ac ased cymunedol
WBO2	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	1.500m	Ehangu cyfleoedd cyflogaeth yn Oakdale Gweithio gyda LIC i ehangu'r cyfleoedd cyflogaeth yn Oakdale.
	I'w gadarnhau	Cynllun Treuliad Anerobig Adnewyddadwy Bryn/Tredomen Archwilio'r cyfle i wneud cysylltiad gwifren uniongyrchol rhwng Tredomen a'r gweithfeydd Treuliad Anerobig i dderbyn trydan oddi yno ar gyfradd fwy deniadol nag yn uniongyrchol o'r grid.
	0.150m	Ehangu'r Cynnig Ystafell De Parc Gwledig Presennol Ceisio treialu cynnig ystafell de Parc Gwledig estynedig i gynnwys safleoedd Parciau Gwledig eraill
	I'w gadarnhau	Cynigion Diwydiannol / Cyflogaeth Datblygu cynigion ar gyfer gwella a chynyddu'r cynnig mewn safleoedd ar draws y fwrdeistref sirol, fel Capital Valley
WB03	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	35.00m	Rhaglen buddsoddi tai Adeiladau Newydd ar draws y fwrdeistref sirol ar ôl i raglen SATC ddod i ben.
	3.500m	Cyfleoedd Adeiladu Newydd - Y Cilgant, Trecenydd a Rhodfa Llanfabon, Bedwas (16 uned yn gyfan gwbl)
	1.500m	Cwblhau gwaith Arbed ym Mharc Lansbury
WB04	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	17.00m	Strategaeth Datgarboneiddio Cymeradwyo prosiectau strategaeth a chynnydd fel Fferm Ynni Haul Cwm Ifor (£17m).
	4.000m	Safle Parcio a Theithio Ystrad Mynach - 113 o lefydd Cynnig i ymestyn y Parcio a Theithio a'r cyfleuster beicio presennol i hyrwyddo newid moddol mwy a chefnogi'r cynigion datblygu o'r CDLI sy'n dod i'r amlwg
	2.500m	Buddsoddiad Priffyrrd Ledled y fwrdeistref Sirol Cynnal a chadw ac uwchraddio'r seilwaith priffyrrd a gwelliannau mewn cyflwr ffyrdd ledled Caerffili
	1.600m	Rhaglen Amnewid Cerbydau Disodli ac uwchraddio cerbydau rheng flaen y Cyngor gan gynnwys, lle bynnag y bo modd, symud i gerbydau sydd wedi dod i ddiweddu eu hoes er mwyn sicrhau y gellir cynnal gwasanaethau allweddol. Mae'r rhaglen newydd hefyd yn cysylltu â Strategaeth Datgarboneiddio'r Cyngor.
	0.950m	A469 Tredegar Newydd / Pontlotyn

		Gwaith ymchwilio a dylunio parhaus ynghyd â rhywfaint o waith cynnal a chadw gyda buddsoddiad yn cael ei wario erbyn diwedd mis Mawrth 2021. Bydd cynllunio tymor hwy ar gyfer y llwybr yn cael ei ystyried yn dilyn y gwaith ymchwilio.
	0.590m	<p>Cyflwyno lonydd beicio ar draws y fwrdeistref sirol.</p> <p>Ceisio cynyddu nifer y lonydd beicio i gefnogi'r Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol, yr agenda Teithio Llesol a newid yn yr hinsawdd</p>
	0.511m	<p>Teithio Llesol Pellach – Ystrad Mynach i Benallta</p> <p>Darparu llwybr Teithio Llesol rhwng Ystrad Mynach a Chwm Calon (Penallta) a fydd yn cynnwys croesi rheilffordd.</p>
	0.400m	<p>Lleddfu Traffig Canol y Dref</p> <p>Cyflwyno mesurau Lleddfu Traffig Canol y Dref gyda rhai prosiectau wedi dechrau fel rhan o ddyfarniad grant Covid LIC</p>
	0.300m	<p>Cyfnewidfa Drafnidiaeth Caerffili</p> <p>Datblygu llwybrau/rhwydwaith teithio llesol lleol er mwyn cefnogi'r agenda llunio lleoedd tref Caerffili, gan ganolbwytio ar ddatblygu opsiynau gwella rhwng y gyfnewidfa, y parc busnes a Pharc Lansbury.</p>
	0.300m	<p>Gwelliannau i'r Maes Parcio</p> <p>Cyflwynwch beiriannau Talu Tapiwch ac Ewch mewn meysydd parcio cyhoeddus tra'n cael gwared ar godi tâl am feisydd parcio ym Mharciau Gwledig Caerffili. Mae dileu codi tâl mewn Parciau Gwledig yn cysylltu â Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol y Cyngor.</p>
	Disgwyd Grant Dyfarniad	<p>Teithio Llesol</p> <p>Teithio Llesol Posibl yn ardal Coed Duon Fwyaf. Amrywiaeth o gynlluniau i'w datblygu.</p>
	I'w gadarnhau	<p>Parcio a Theithio Llanbradach</p> <p>Ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru i Gyflwyno Cynllun Parcio a Theithio ar gyfer Llanbradach</p>
	0.040m	<p>Cynllun Cylchfannau Glân</p> <p>Adeiladu ar gynllun nawdd presennol y cylchfan.</p>
	I'w gadarnhau	<p>Gwella Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd</p> <p>Dylunio a gweithredu cyfres o gynlluniau amddiffyn rhag llifogydd ar draws y Fwrdeistref Sirol.</p>
WB05	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	36.00m	Basn Caerffili

		Datblygiad posibl safle tir llwyd allweddol yng nghanol tref Caerffili ar gyfer cyfleusterau defnydd cymysg, gan gynnwys cyfuniad o ddefnydd addysg / hamdden / tai a chyflogaeth
	1.200m	Canolfan Ymwelwyr Penallta
	1.000m	Gwaith Gwella'r Gamlas yn Rhisga Ymgymryd â Gwaith Gwella'r Gamlas yn Rhisga
	0.500m	Gwaith Gwella Porth y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 2020/21.
	0.350m	Newid hinsawdd - Gwaith i Dŷ Penallta Rhesi to ffotofoltaig ar adeiladau Campws Tredomen a phwyntiau newid Cerbydau Trydanol ychwanegol ar y campws
	0.328m	Cronfa Cadernid Cymunedol Creu cronfa lle gallaelodau etholedig, grwpiau cymunedol a sefydliadau wneud cais am gyllid i gyflawni gwelliannau o fewn yr ardal
	0.400m	Creu Sylfeini Hyb Chwaraeon Cymunedol yng Nghanolfan Hamdden Sue Noake Gosod Hwb Hoci Llain Glaswellt Ffug o'r radd flaenaf yn lle'r Llain Glaswellt Ffug yn Sue Noake yn ogystal â chreu Cae Rygbi newydd i uwch-chwaraewyr a gwella'r Cae Rygbi presennol yn y Ganolfan.
	0.200m	Rhaglen Prif Barciau Caerffili Creu Rhaglen Prif Barciau sy'n darparu nifer o deithiau cerdded deniadol a mannau awyr cyhoeddus agored lle gall preswylwyr wneud ymarfer corff a chael awyr iach. Y rhaglen i gynnwys Parc Morgan Jones, Taith Gerdded Sirhywi, Parc Waunfawr, Parc Ystrad Mynach, Parc Bargod, Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn ogystal â Ffordd Goedwig Cwmcarn a Pharc Cwm Darran
	0.150m	Lôn y Parc, Caerffili Archwilio'r posibilrwydd o agor fel marchnad naid gyda meinciau / gerddi neu agor y tir i Barc Dafydd Williams ar gyfer twristiaid/trigolion.
	0.080m	Statws y Faner Werdd Ceisio statws y Faner Werdd ar gyfer Camlas Rhisga - Cangen Crymlyn a Pharc Gwledig Penallta. Bydd hyn yn gofyn am rai gwelliannau i'r seilwaith, mwy o waith cynnal a chadw, biniau a meinciau ychwanegol yn ogystal â phlannu coed a pheintio'r rheiliau a rhwystrau sy'n bodoli eisoes.
	0.020m	Rhaglen Glanhau Trefi

		Trefi allweddol i gael eu glanhau'n ddwfn a'u chwynnu cyn misoedd yr haf
	I'w gadarnhau	Lleoliadau 'Park Run' Hyrwyddo'n weithredol lleoliadau 'Park Run' ledled Caerffili
WB06	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	4.160m	Datblygu cyfleuster Canolfan Seibiant pwrrpasol newydd ym Mhontllan-fraith gyda'r potensial i ddarparu gwasanaethau seibiant o un lleoliad sy'n gwasanaethu'r fwrdeistref sirol gyfan.
	4.620m	Cyfleuster lechyd Integredig - Tŷ Darran (Canolfan lechyd/elfen o Dai) i gynnwys cyfraniad ariannol ychwanegol gan Fwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

5.9 Rhaglen Ymgysylltu Llunio Lleoedd Parhaus

Bydd y Rhaglen Llunio Lleoedd yn adeiladu ar yr egwyddorion o fewn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu'r cyngor a'r prosiectau a'r syniadau drafft a nodir ym mhwynt 5.8.

Cymeradwywyd egwyddorion y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu gan y Cabinet ym mis Chwefror 2020 ac mae'n cynnwys:

- Grymuso ein trigolion i gael mwy o ddylanwad dros y materion sy'n effeithio arnynt.
- Cynyddu a chryfhau rôl cymunedau yn y ffordd rydym yn byw, gweithio ac ymweld â bwrdeistref sirol Caerffili.
- Ein helpu i ddeall anghenion ein cymunedau, a fydd yn eu tro, yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn diwallu'r anghenion hynny, a bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn unol â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Cefnogi cymunedau i weithredu, drwy eu helpu i nodi anghenion, a'u cefnogi i ddatblygu atebion a arweinir gan y gymuned.

Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi cynnal arolwg preswylwyr cynhwysfawr o'r enw 'Trafodaeth Caerffili'. Gofynnodd Trafodaeth Caerffili am farn ar ystod eang o feysydd gan gynnwys bodhad â gwasanaethau'r cyngor, ein hymateb ar y cyd i bandemig COVID-19 a safbwytiau ar feysydd fel addysg, tai, yr economi leol a newid yn yr hinsawdd. Mae canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori hwnnw yn cyfrannu'n ddefnyddiol iawn at y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd sy'n dod i'r amlwg, sydd wedi'i lunio ym mhwynt 5.8.

Caerffili – 'Lle i Bawb'

Bydd y Rhaglen Llunio Lleoedd – 'Lle i Bawb' yn adeiladu ar yr ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhalwyd hyd yma a bydd yn canolbwytio ar ddatblygu perthynas gryfach a pharhaus rhwng ein trigolion a'n gwasanaethau cyhoeddus – er mwyn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o anghenion a dyheadau'r gymuned ar gyfer y dyfodol.

Bydd y rhaglen yn ceisio datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer y math o le y mae ein trigolion am fyw ynddo a'r rôl gyfunol sydd gan bawb i'w chwarae wrth gyflawni hyn.

Bydd y canlynol yn elfennau allweddol o'r rhaglen:

- Hyfforddiant a datblygiad parhaus i gynghorwyr a staff allweddol y cyngor ynghylch cynnwys y gymuned a chyd-gynhyrchu gwasanaethau.
 - Gwneud y defnydd gorau posibl o rwydwaith presennol y cyngor o staff sy'n cael deialog rheolaidd, parhaus y gellir ymddiried ynddo gyda phreswylwyr.
 - Mapio asedau cymunedol ar lefel wardiau unigol er mwyn adeiladu ar rwydwaith ymgynghori/ymgysylltu presennol y cyngor – gan ganolbwytio'n benodol ar grwpiau anodd eu cyrraedd.
 - Prosiectau parhaus a arweinir gan y gymuned a'r cyngor wedi'u bathu fel 'Tîm Caerffili ar Waith' sy'n ceisio annog deialog barhaus, rhoi adborth a meithrin gallu cymunedol ymhellach.
 - Y cyfle i ddefnyddio'r gwaith mapio rhanddeiliaid gwell er mwyn casglu mewnwelediadau rheolaidd ar wasanaethau allweddol – gan gynnwys addysg, adfywio a materion ansawdd bywyd.
 - Arolygon preswylwyr 'gwirio barn' rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion allweddol ac yn amlyu cyfleoedd i fireinio'i ddulliau gweithredu.
 - Rhaglen gylchol o ymgysylltu â'r gymuned dan arweiniad cynghorwyr a swyddogion, ar lefel ward cyngor unigol. Bydd y trafodaethau'n canolbwytio i ddechrau ar nifer o ardaloedd a byddant yn cael eu cynnal ar draws nifer o lwyfannau. Bydd y rhain yn cynnwys:
 - balchder cymunedol
 - hunaniaeth
 - anghenion cymunedol
 - adnabod bylchau
 - beth sy'n bwysig i'n cymunedau wrth fyw bywydau llawn a ffyniannus

Fel rhan o'r rhaglen gylchol hon, gellir ystyried prosiectau sy'n bodoli eisoes a'u mireinio o bosibl tra hefyd yn darparu'r llwyfan ar gyfer ychwanegu syniadau prosiect ychwanegol i'r Fframwaith.

Ni fwriedir i'r dull parhaus hwn o ymgysylltu â'r gymuned ddisodli prosesau ymgynghori unigol, ffurfiol sy'n benodol i brosiectau neu gynlluniau penodol; yn hytrach, y bwriad yw hwyluso deialog gadarn, parhaus, hirdymor gyda'n cymunedau lle caiff cydberthnasau eu gwerthfawrogi a'u bod yn ymddiried ynddynt, a bydd yn cefnogi'r prosesau ymgynghori ac ymgysylltu mwy ffurfiol hynny yn ôl y gofyn.

5.10 Casgliad

Dros y paragraffau uchod, mae buddsoddiad o werth mwy na £485m wedi'i amlinellu. Mae rhywfaint o hyn wedi'i wneud dros flynyddoedd blaenorol, ond gellir defnyddio cyfran sylweddol i lunio dyfodol Caerffili dros y blynnyddoedd nesaf.

Mae'r cynigion Lles a Llunio Lleoedd a nodir ym mhwynt 5.8 yn darparu buddsoddiad sylweddol i ddyfodol y fwrdeistref sirol o safbwyt economaidd, cymdeithasol ac

amgylcheddol ac mae'r rhaglen ymgysylltu a nodir o bwynt 5.9 ymlaen yn nodi'r mecanwaith y gall rhanddeiliaid allweddol ei ddefnyddio er mwyn llunio'r rhaglen yn uniongyrchol gyda'r Cyngor wrth iddi gael ei datblygu. Mae hyn yn darparu llwybr ymlaen hanfodol i'n cymunedau er mwyn adeiladu dyfodol cadarn a chynaliadwy wrth iddynt ddod allan o'r pandemig Covid.

Os bydd y Cabinet yn cytuno ar y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd a nodir ym mhwynt 5.8 bydd yn cytuno i fuddsoddi'n sylweddol yn ei gymunedau, ar adeg allweddol yn adferiad ein cymunedau o effeithiau'r pandemig COVID-19.

Ni ddylid tanbrisio'r manteision posibl y gall y Fframwaith eu darparu wrth ddatblygu, gwella ac adnewyddu seilwaith ac asedau o bob rhan o Gaerffili. Gall buddsoddiad parhaus o'r gwerth a'r maint hwn helpu i gryfhau'r economi leol, cynyddu cadernid cymunedol a dod â swyddi a chyfleoedd.

6. RHAGDYBIAETHAU:

- 6.1 Tybir y bydd y dirwedd economaidd bresennol ac yn y dyfodol yn ddigon hyfyw i'r prosiectau a gynigir yn adran 5.8 gael eu datblygu.
- 6.2 Pe bai prosiectau penodol yn anymarferol yn y pen draw, tybir y byddai'n posibl dargyfeirio'r cyllid i gefnogi prosiectau Llunio Lleoedd eraill.
- 6.3 Mae cyflawni'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd ar gyflymder a graddfa yn hollbwysig a bydd ei lwyddiant yn gyfyngedig heb y capaciti uwch reolwyr a rheoli prosiectau ychwanegol y cyfeirir ato yn adran 11.

7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISIâu PERTHNASOL Y CYNGOR

- 7.1 Amcanion Lles Caerffili 2018-2023. Bydd y cynnig hwn yn cynorthwyp'r Cyngor wrth ddiwallu pob un o'i chwe amcan lles:
 - **Amcan Lles 1 –** Gwella cyfleoedd addysg i bawb.
 - **Amcan Lles 2 –** Galluogi cyflogaeth.
 - **Amcan Lles 3 –** Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd tai ar draws y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu gwella iechyd a lles pobl.
 - **Amcan Lles 4 –** Hyrwyddo system gludiant fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hyrwyddo ffyniant, ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.
 - **Amcan Lles 5 –** Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi dull byw iachus yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn rhan o Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- **Amcan Lles 6 –** Cefnogi dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu lles.

7.2 Mae'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd hefyd yn cyd-fynd yn benodol â'r canlynol gan y Cyngor:

- TîmCaerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd
- Strategaeth Ddrafft Chwaraeon a Hamdden Egniol 2019–2029
- Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif - Band B - 2019-2026
- Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014
- Sylfaen ar gyfer Llwyddiant 2018-2023
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru 2015
- Fframwaith Adfer Strategol COVID-19 2020
- Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2019-2022

8. Lles Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i gyrrif cyhoeddus feddwl yn fwy am yr hir-dymor, gweithio gyda phobl a chymunedau, ac edrych i atal problemau, a chymryd ymagwedd sy'n fwy unedig. Bydd hyn yn ein helpu ni i greu Cymru rydyn ni i gyd eisiau byw ynnddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod lles:

- Cymru ffyniannus.
- Cymru gwydn.
- Cymru iachach.
- Cymru fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru o ddiwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol yn fydd-eang.

8.2 Mae'r Ddeddf yn nodi'r egwyddor datblygu cynaliadwy y dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru asesu ei phenderfyniadau yn ei herbyn. Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol trwy wneud y mwyaf o'r cyfraniad y mae cyriff cyhoeddus yn ei wneud tuag at y nodau lles. Wrth ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i ystyried y boblogaeth gyfan y mae'n ei gwasanaethu ac yn ystyried effaith ei weithredoedd ar genedlaethau'r dyfodol. Asesir yr egwyddor, a elwir hefyd yn bum ffordd o weithio, isod:

- **Tymor Hir** –Mae'r Fframwaith Llunio Lleoedd yn fuddsoddiad aml-flwyddyn mewn ystod eang o gyfleusterau newydd sydd â'r potensial i fod o fudd i'r gymuned gyfan

ynghyd â chyfrannu at bob un o chwe amcan lles y Cyngor.

- **Atal** – Mae gan ddarparu cyfleusterau a rhagleni newydd, o'r radd flaenaf mewn sawl achos, y potensial i gefnogi llu o waith ataliol ar draws y Fwrdeistref.
- **Integreiddio** - Dyluniwyd y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd er mwyn integreiddio'n uniongyrchol ag Amcanion Lles y Cyngor ei hun a'r rhai y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- **Cydweithredu** - Bydd angen integreiddio llawer o ragleni'r Fframwaith Lles a Llunio Lle ar draws Cyfarwyddiaethau'r Cyngor yn ogystal â phartneriaid allweddol o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.
- **Ymglymiad** - Cynigir bod y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd yn cael ei danategu gan raglen ymgysylltu barhaus o'r enw 'Caerffili - lle i bawb' a fydd yn rhoi cyfle i randdeiliaid allweddol gymryd rhan uniongyrchol yn nyfodol y Fframwaith. Bydd ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu yn sail i bob prosiect yn y Fframwaith drafft hefyd.

9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

- 9.1 Bydd y Goblygiadau Cydraddoldeb yn amrywio'n sylweddol ar draws pob prosiect yn y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd drafft. Gyda hyn mewn golwg, bydd angen mynd i'r afael â goblygiadau cydraddoldeb pob un o'r prosiectau arfaethedig fel rhan o'r mecanweithiau datblygu a chyflawni prosiectau.

10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 10.1 Mae'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd yn rhaglen uchelgeisiol a fydd angen buddsoddiad ar raddfa fawr. Bydd ariannu'r prosiectau yn cynnwys cyfuniad o ddulliau gyda rhai yn cael eu hariannu'n uniongyrchol trwy adnoddau'r Cyngor, rhai trwy gyllid allanol ochr yn ochr â gofyniad cyllid cyfatebol ar gyfer y Cyngor a rhai wedi'u hariannu'n llwyr yn allanol.
- 10.2 Wrth i rai prosiectau gael eu datblygu'n achosion busnes i'w hystyried, bydd angen ystyried y goblygiadau ariannol manwl yn unol â Chyfansoddiad a Rheolau Sefydlog Ariannol y Cyngor. Lle bynnag y bo modd, un o'r ysgogwyr allweddol yn natblygiad achosion busnes fydd sicrhau cyllid gan grantiau a/neu bartneriaid allanol.
- 10.3 Yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2020, cymeradwyodd Cabinet argymhelliaid i glustnodi £24.543 miliwn o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer y Fframwaith Llunio Lleoedd. Ar ben hynny, yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2020, cymeradwyodd y Cyngor cyllid pellach ar gyfer y Fframwaith Llunio Lleoedd sy'n dod i gyfanswm o £4.048 miliwn o arbedion 2020/21 ymlaen llaw a balans dros ben ar y Gronfa Gyffredinol. Daw hyn â chyfanswm y cyllid cymeradwy hyd yma i £28.591m.

10.4 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo argymhelliaid pellach y dylid dyrannu cyllid o £1.640 miliwn a gedwir yng Nghyfraniad Refeniw Cyllid Amrywiol at Wariant Cyfalaf 2020/21 (RCCO) i'r Fframwaith Llunio Lleoedd, a fyddai'n cynyddu cyfanswm y cyllid sydd ar gael i £30.231 miliwn.

11. GOBLYGIADAU PERSONÉL

- 11.1 Er mwyn cyflwyno rhaglen fuddsoddi o'r maint a'r raddfa hon, mae cyflwyno'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd wedi'i nodi fel blaenorriaeth graidd i dîm Arweinyddiaeth y Cyngor. I ategu'r ffocws hwn, cyflwynwyd cais twf fel rhan o gyllideb 2021/22 a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021 i benodi adnoddau ychwanegol.
- 11.2 Mae'r cais twf yn ceisio sicrhau cyflogaeth barhaol i'r adnoddau trawsnewid tymor penodol yn ogystal â chreu Pennaeth Trawsnewid parhaol newydd a Phennaeth Ffyniant parhaol newydd.
- 11.3 Bydd y Fframwaith hefyd yn cael ei ategu trwy gaffael pedwar adnodd rheoli prosiect tymor penodol a chreu swyddfa rheoli prosiect i gefnogi cyflwyno'r rhaglen drawsnewid eang hon o fuddsoddiadau.
- 11.4 Bydd yr adnodd ychwanegol hwn, ynghyd â ffocws presennol y tîm arweinyddiaeth gorfforaethol, yn galluogi rhaglen drawsnewid ehangach "Tîm Caerffili" y Cyngor i gael ei hymgorffori a'i symud ymlaen ar y cyflymder angenrheidiol. Mae'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd yn elfen ganolog o'r rhaglen gyffredinol hon o fuddsoddi a newid. Os na fydd y cais am adnoddau ychwanegol yn cael ei gefnogi gan y Cyngor fel rhan o gyllideb 2021/22, ni fydd y fframwaith Llunio Lleoedd yn gallu cyflawni ar y cyflymder a'r raddfa a ddymunir a bydd angen "israddio'r rhaglen" i alinio ag unrhyw un adnoddau presennol sydd ar gael.

12. YMGYNGHORIADAU

- 12.1 Dosbarthwyd yr adroddiad drafft fel y manylir isod. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hadlewyrchu yn y fersiwn hon o'r adroddiad.

13. PŵER STATUDOL

- 13.1 Amryw o ddeddfwriaeth Llywodraeth Leol gan gynnwys Deddfau Llywodraeth Leol 1972, 2000 a 2003, a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Awdur: Christina Harrhy, Prif Weithredwr

Ymgynghoreion:
Y Cyng. Philippa Marsden, Arweinydd
Y Cyng. Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi a Menter
Y Cyng. Eluned Stenner, Aelod Cabinet dros Wasanaeth Perfformiad a Gwasanaethau i Gwsmeriaid
Y Cyng. Ross Whiting, Aelod Cabinet dros Ddysgu ac Chyflawniad
Y Cyng. John Ridgewell, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd
Y Cyng. Colin Gordon, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol
Y Cyng. Nigel George, Aelod Cabinet dros Wastraff a Diogelu'r cyhoedd

Y Cyng. Lisa Phipps, Aelod Cabinet y Cyngor dros Gartrefi ac Eiddo
Y Cyng. Shayne Cook, Aelod Cabinet dros ddysgu a Chyflawniad
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
a Thai
Ed Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau
Corfforaethol
Mark S Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Cymunedau
Steve Harris, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran
151
Robert Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog
Monitro
Y Cyng. Colin Mann, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru Group
Y Cyng. Kevin Etheridge, Arweinydd y Grŵp Annibynol n

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol